Ymunwch â Chwm Taf Morgannwg
Join Cwm Taf Morgannwg

# Cefnogi Cyn-filwyr i mewn i Yrfaoedd yn y GIG

Mae BIP Cwm Taf Morgannwg wedi ymuno â Chyfamod y Lluoedd Arfog, gan gydnabod ein hymrwymiad i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog ym maes recriwtio a chyflogi.

Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau trosglwyddadwy y mae cyn-filwyr a milwyr wrth gefn yn eu cynnig ac yn eu croesawu i ystod eang o rolau ar draws ein Bwrdd Iechyd.

Am ragor o wybodaeth am weithio i Gwm Taf Morgannwg, ewch i'n Tudalen Gyrfaoedd: **https://dewchictm.cymru/**



**Gwynne Harries**
Cyn-filwr y Llynges Frenhinol ac Ymarferydd yr Adran Lawdriniaethau, Theatrau Ysbyty Brenhinol Morgannwg

**Gwirfoddoli gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
**Gwneud Gwahaniaeth Bob Dydd**

Mae gwirfoddolwyr wrth wraidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), gan chwarae rhan hanfodol wrth wella gofal a phrofiad cleifion, teuluoedd a staff ar draws ein cymunedau. Gan weithio ar draws ein holl safleoedd ysbyty, mae ein gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser yn hael i gefnogi ystod eang o wasanaethau.

**Sut mae ein gwirfoddolwyr yn cefnogi**

Mae ein gwirfoddolwyr yn dod â thrugaredd, sicrwydd a chefnogaeth ymarferol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Cynnig croeso cynnes drwy **Wasanaethau Cwrdd a Chyfarch**
- Cefnogi cleifion a theuluoedd mewn **adrannau argyfwng**
- Darparu cwmni fel **Cyfeillion Ward**
- Cefnogi gwasanaethau mewn **Unedau Mamolaeth a Dydd**
- Casglu mewnwelediadau drwy **Rolau Adborth Cleifion**
- Cyfrannu at **Ofal Ysbrydol a chymorth lles**
-

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector gwerthfawr, gan gynnwys gwasanaethau **Therapi Anifeiliaid Anwes a Marie Curie,** gan ein helpu i ymestyn cefnogaeth a chyfoethogi profiad y claf hyd yn oed ymhellach.

**Am Ragor o Wybodaeth:**
Ewch i: https://bipctm.gig.cymru/swyddi/gwirfoddoli-i-ni/
E-bostiwch: CTUHB_Volunteering@wales.nhs.uk



**Anita and Lynne**
Wasanaethau Cwrdd a Chyfarch, Ysbyty Brenhinol Morgannwg

## Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Fel rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog, rydym yn cynnig Cynllun Gwarantu Cyfweliad i aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Rydym yn cydnabod bod profiad a chymwysterau gwasanaeth milwrol yn dod â chyfoeth eang ac amrywiol o wybodaeth a sgiliau.

## Trawsnewid o Yrfa yn y Lluoedd Arfog

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am newid o yrfa milwrol i'r GIG, dyma rai adnoddau defnyddiol:

**Camu i Iechyd:**
https://www.militarystepintohealth.nhs.uk/

**Partneriaeth Trawsnewid Gyrfa:**
**https://www.modctp.co.uk/home**

**Cyflogwyr y GIG — Cymuned y Lluoedd Arfog**
www.nhsemployers.org/articles/recruiting-armed-forces-community

**Cyfamod y Lluoedd Arfog**
www.gov.uk/government/collections/armed-forces-covenant-supporting-information

**Cymorth Ymgeisio Cyffredinol**
Dewcho hyd i ganllawiau a chymorth ar wneud cais am rolau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board